

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

Y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl)

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru, os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn, neu sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.
2. Ar 27 Mehefin 2022 ysgrifennodd y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Llywydd yn amlinellu pryderon mewn perthynas â'r Bil, gan nodi, oherwydd diffyg trafodaethau ystyrlon â Llywodraeth y DU cyn ei gyflwyno a chymhlethdod y materion sy'n codi yn y Bil, ni fyddai modd ymateb o fewn y cyfnod arferol o bythefnos a amlinellir yn Rheol Sefydlog 29. Roedd y llythyr hefyd yn nodi dewis Llywodraeth y DU i beidio â thrafod â Llywodraeth Cymru nes i ddarllenid cyntaf y Bil gael ei gynnal yn Nhŷ'r Cyffredin, ac yn llesio pryderon ynghylch y trafodaethau cyfyngedig mae swyddogion wedi'u cael â Llywodraeth y DU ers yr adeg hynny.
3. Mae'r ffaith y dewisodd Llywodraeth y DU beidio â gweithio o fewn y Fframweithiau Cyffredin sydd ar waith mewn sawl maes polisi yr effeithir arnynt gan y Bil, neu drafod â Llywodraeth Cymru nes i'r Bil gael ei gyflwyno, yn golygu nad yw effeithiau'r Bil ar Gymru wedi cael eu hystyried yn ddigonol.
4. Cafodd y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl) ('y Bil') ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 25 Mai 2022. Mae'r Bil ar gael yma: <https://bills.parliament.uk/publications/48320/documents/2404>. Cafodd y Bil ei ail ddarllenid yn Nhŷ'r Arglwyddi ym mis Tachwedd 2022, a disgwyllir i'r Cyfnod Pwyllgor gael ei gynnal rywbryd ym mis Rhagfyr.

Amcan(ion) Polisi

5. Mae Llywodraeth y DU wedi datgan mai ei hamcanion polisi yw y bydd y Bil yn lleihau'r baich rheoleiddio a'r rhwystrau ariannol sy'n bodoli ar gyfer ymchwilwyr a bridwyr masnachol sy'n defnyddio technolegau bridio manwl.
6. Mae'r Bil yn dileu'r planhigion a'r anifeiliaid a gynhyrchir gan ddefnyddio biodechnolegau modern, a'r bwyd a'r porthiant sy'n deillio ohonynt, o'r broses o reoleiddio organebau a addaswyd yn enetig, pe gallai'r organebau hynny fod wedi digwydd yn naturiol neu fod wedi cael eu cynhyrchu drwy ddulliau traddodiadol. Mae'n disodli mesurau rheoli presennol ar gyfer organebau a addaswyd yn enetig â fframwaith rheoleiddio mwy hyd braich.

Crynodeb o'r Bil

7. Noddir y Bil gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

8. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer:

- Cyflwyno dwy system hysbysu orfodol ar gyfer organebau wedi'u bridio'n fanwl, un at ddibenion nad ydynt yn ymwneud â marchnata ac un at ddibenion marchnata.
- Galluogi pwerau newydd i gyflwyno rhwymedigaethau parhaus i gyflwyno gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd a lles anifeiliaid asgwrn cefn sydd wedi'i bridio'n fanwl, ac i ddisgrifio'r prosesau a'r pwerau y gall yr Ysgrifennydd Gwladol eu defnyddio i gymryd y camau sydd eu hangen i ymateb i'r wybodaeth ôl-farchnata hon am les anifeiliaid.
- Rhoi dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i greu a chynnal cofrestr gyhoeddus newydd o wybodaeth sydd wedi cael ei chyflwyno.
- Rhoi pwerau i greu fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer bwyd a phorthiant sy'n deillio o organebau a addaswyd yn enetig. Bydd y fframwaith hwn yn cynnwys fframwaith ar gyfer rhoi awdurdodiadau i farchnata bwyd a phorthiant sy'n deillio o organebau wedi'u bridio'n fanwl, gan gynnwys asesiad risg cymesur newydd. Bydd y fframwaith hefyd yn amlinellu'r gofynion y mae angen eu bodloni cyn y gellir rhoi awdurdodiad i farchnata bwyd a phorthiant.
- Rhoi pwerau i'r Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) sefydlu, cyhoeddi a diweddarau cofrestr gyhoeddus o'r organebau wedi'u bridio'n fanwl sydd wedi cael awdurdodiad i'w defnyddio mewn bwyd a phorthiant. Byddai cofnod yn y gofrestr hon yn nodi bod organeb wedi'i bridio'n fanwl, a chynhyrchion sy'n deillio ohoni, wedi derbyn awdurdodiad i gael ei defnyddio yn y farchnad bwyd a phorthiant, ar sail argymhelliad yr FSA.
- Rhoi pwerau i greu cyfundrefn archwilio a gorfodi, gan gynnwys sancsiynau sifil, er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r rhwymedigaethau o dan y Bil.

Nid oes unrhyw ofynion gorfodol mewn perthynas â labelu neu olrhain ar gyfer marchnata organebau wedi'u bridio'n fanwl.

Y darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

9. Barn Llywodraeth Cymru yw bod y Bil yn fil perthnasol, gan ei fod yn gwneud darpariaeth berthnasol sy'n ymwneud â Chymru oherwydd Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 ('UKIMA'). Mae effaith y gofynion yn yr UKIMA yn golygu y bydd y darpariaethau yn y Bil, i bob pwrpas, yn caniatáu gwerthu a marchnata organebau wedi'u bridio'n fanwl yng Nghymru – rhywbeth nad yw deddfwriaeth Cymru yn ei ganiatáu ar hyn o bryd. Felly, barn Llywodraeth Cymru yw bod y Bil, o ganlyniad i'r UKIMA, yn gwneud

darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

10. Mae'r Bil yn rhoi ar waith fframwaith rheoleiddiol newydd yn Lloegr ar gyfer organebau wedi'u bridio'n fanwl. Dim ond yn Lloegr y bydd yn cael effaith uniongyrchol, ond, o ganlyniad i'r UKIMA, bydd yn arwain at oblygiadau sylweddol mewn perthynas â Chymru. O ganlyniad, effaith y Bil yn ei gyfanrwydd yw cyflwyno fframwaith rheoleiddio a fydd yn effeithio ar Gymru. Mae'r Atodiad yn nodi cymalau o berthnasedd penodol sydd ym marn Llywodraeth Cymru yn darparu prif nodweddion y fframwaith. Mae organebau a addaswyd yn enetig, planhigion, iechyd a lles anifeiliaid, bwyd a phorthiant, ac amaeth i gyd o fewn cwmpas darpariaethau'r Bil, ac maent yn ddarpariaethau sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y senedd.
11. Mae Cymal 41 o'r Bil yn diwygio Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Mae'r cymal hwn, ar y cyd â'r darpariaethau cyffredinol yng Nghymalau 42 a 48, yn dileu organebau wedi'u bridio'n fanwl o'r gyfundrefn reoleiddio bresennol sy'n bodoli ar gyfer organebau a addaswyd yn enetig yn Lloegr.
12. Mae Cymal 1 yn diffinio organeb wedi'i bridio'n fanwl. Er mwyn i organeb wedi'i bridio'n fanwl gael ei marchnata yn Lloegr, bydd angen iddo fodloni nifer o ofynion. Bydd angen i berson hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol os yw'n bwriadu gollwng organeb wedi'i bridio'n fanwl, h.y. planhigyn neu anifail, i'r amgylchedd yn Lloegr (Cymalau 3 a 4 o'r Bil). Os yw'n bwriadu marchnata'r organeb, bydd angen iddo gyntaf wneud cais am gadarnhad bod yr organeb yn organeb wedi'i bridio'n fanwl o dan y Bil (Cymalau 5–8). Mae gofynion eraill ar waith ar gyfer marchnata anifeiliaid wedi'u bridio'n fanwl (Cymal 11), gan gynnwys mewn perthynas â llesiant anifeiliaid. Mae Rhan 3 o'r Bil yn amlinellu fframwaith ar gyfer rheoleiddio cynhyrchion wedi'u cynhyrchu o organebau wedi'u bridio'n fanwl (Cymal 26). Mae'r Bil hefyd yn amlinellu rhwymedigaethau monitro, gorfodi a chostau. (Cymalau 20, 28, 31, 32 a 38).
13. Er y bydd y Bil yn berthnasol i Loegr yn unig, mae'r egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol yn Neddf Marchnad Fewnol y DU 2020 (UKIMA) yn berthnasol i blanhigion ac anifeiliaid wedi'u bridio'n fanwl, a'r bwyd a'r porthiant sy'n deillio ohonynt, sy'n cael eu cynhyrchu yn Lloegr neu'n cael eu hallforio yno. Mae hyn yn golygu y byddai modd eu rhoi ar y farchnad yng Nghymru yn gyfreithlon os oes modd eu marchnata yn gyfreithlon yn Lloegr, o ganlyniad i'r Bil a'r deddfwriaeth ddirprwyedig sydd i'w gwneud o dano.
14. Yng Nghymru mae Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Cymru) (OS 2002/3188) yn rheoleiddio gollwng organebau a addaswyd yn enetig yn fwriadol, ac yn atal eu marchnata heb gydsyniad Gweinidogion Cymru. Fodd bynnag, ni fydd y Rheoliadau hyn yn berthnasol i organebau wedi'u bridio'n fanwl sy'n cael eu symud i Gymru o Loegr, os bydd yr organebau hynny'n bodloni'r gofynion a amlinellir yn y Bil. Y canlyniad ymarferol yw y bydd modd marchnata planhigion ac anifeiliaid wedi'u bridio'n fanwl sy'n dod o Loegr yng

Nghymru, a bydd cyfraith Cymru yn amherthnasol ar gyfer y planhigion a'r anifeiliaid wedi'u bridio'n fanwl penodol hynny. I bob pwrpas mae'r darpariaethau hyn wedi cael eu gwneud at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, gan y bydd modd marchnata'r cynhyrchion yng Nghymru, er bod yr organebau wedi'u bridio'n fanwl yn cael eu diffinio fel organebau a addaswyd yn enetig yng Nghymru, ac yn destun rheoliadau mwy llym.

15. Mae bwyd a phorthiant sy'n cynnwys, neu sydd wedi'u cyfansoddi neu wedi'u cynhyrchu o organebau a addaswyd yn enetig yn cael eu rheoleiddio o dan Reoliad (EC) Rhif 1829/2003 ar fwyd a phorthiant a addaswyd yn enetig. Mae'r Rheoliad hwn yn atal marchnata bwyd neu borthiant a addaswyd yn enetig ym mhob tiriogaeth Prydain Fawr heb awdurdod gan yr 'awdurdod priodol' ar gyfer y diriogaeth (Gweinidogion Cymru yn achos Cymru). Bydd angen i Reoliadau wedi'u gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Ran 3 o'r Bil ddiwygio Rheoliad 1829/2003 i eithrio organebau wedi'u bridio'n fanwl o gwmpas y Rheoliad hwnnw, yn gymaint ag y mae'n berthnasol i Lloegr. Mae effaith y Bil a'r UKIMA yn golygu y gellid marchnata cynhyrchion bwyd a phorthiant sy'n deillio o organebau wedi'u bridio'n fanwl sydd wedi derbyn awdurdodiad o dan y gyfundrefn newydd yn Lloegr, a hynny heb dderbyn awdurdodiad (gan Weinidogion Cymru) o dan Reoliad 1829/2003. Mae hyn yn golygu y bydd angen dwy gyfundrefn wahanol ar waith yng Nghymru ar gyfer bwyd a phorthiant – y gyfundrefn newydd a gynigir gan y Bil a chyfundrefn bresennol Cymru. Gallai fod angen mwy na dwy gyfundrefn os yw'r UE yn newid ei ddull rheoleiddio, a fyddai wedyn yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon.
16. Hefyd, heb ddarpariaeth yn y Bil yn gwneud labelu neu olrhain organebau wedi'u bridio'n fanwl neu gynhyrchion sy'n deillio ohonynt yn orfodol, byddai gallu Gweinidogion Cymru i fonitro, rheoli neu reoleiddio marchnata'r cynhyrchion hyn yng Nghymru yn cael ei rwystro'n ddifrifol.
17. Bydd diffyg labeli ar nwyddau sy'n deillio o organebau wedi'u bridio'n fanwl yn rhoi awdurdodau gorfodi yng Nghymru mewn sefyllfa anodd, gan na fyddant yn gallu nodi'r cynhyrchion hynny sy'n torri cyfraith Cymru, neu'r rhai nad ydynt yn torri awdurdodiad Lloegr, ac o ganlyniad i'r UKIMA bydd rhaid eu derbyn yng Nghymru.
18. Dyma'r meysydd polisi datganoledig yng nghwmpas y Bil hwn: organebau a addaswyd yn enetig; planhigion; iechyd a lles anifeiliaid; a bwyd a phorthiant. Yn benodol, na fydd Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Cymru) 2002 (OS 2002/3188) a Rheoliad a ddargedwir (EC) Rhif 1829/2003 ar fwyd a phorthiant a addaswyd yn enetig yn berthnasol i organebau wedi'u bridio'n fanwl sy'n cael eu cynhyrchu yn Lloegr neu eu mewnfario yno, ac yn cael eu symud i Gymru. Mae'r Atodiad yn amlinellu darpariaethau penodol lle y gellir gweld effaith yr UKIMA yn glir, er bod y darpariaethau hyn yn rhyngweithio â'r holl Fil.

Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad

19. Mae Llywodraeth y DU yn anghytuno y gall fod angen cydsyniad ar gyfer unrhyw ran o'r Bil.

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil

20. Mae Llywodraeth Cymru wedi dod i'r casgliad nad yw'n gallu argymhell i'r Senedd ei bod yn rhoi cydsyniad i'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd. Rydym yn argymhell bod cydsyniad yn cael ei atal am y rhesymau canlynol:

- a. Ni chafodd Llywodraeth Cymru ei gynnwys yn y gwaith o ddatblygu'r Bil, ac nid yw effeithiau'r Bil ar Gymru wedi cael eu hystyried yn ddigonol. Mae'r sefyllfa gyfreithiol yn y DU ar hyn o bryd yn deillio o ddyfarniad Llys Cyfiawnder Ewrop yn 2018, a benderfynodd fod golygu genynnau yn cael ei ystyried yn fath o addasu genetig. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cwblhau ei hasesiad ei hun o sail resymegol wyddonol ac economaidd Llywodraeth y DU dros ddadroleiddio organebau wedi'u bridio'n fanwl, felly nid yw'n gallu cytuno â safbwynt Llywodraeth y DU ar hyn o bryd.
- b. Bydd effaith y Bil yn ei gyfanrwydd yn cael effeithiau andwyol ar y setliad datganoli. Mae'n creu fframwaith rheoleiddio cyfan newydd ar gyfer organebau wedi'u bridio'n fanwl, a fydd yn arwain at oblygiadau yng Nghymru. Effaith y Bil, o ganlyniad i Ddeddf Marchnad Fewnol y DU, yw bod cyfraith Cymru mewn perthynas ag organebau a addaswyd yn enetig yn amherthnasol ar gyfer rhai organebau wedi'u bridio'n fanwl sy'n cael eu symud i Gymru o Loegr. Bydd modd marchnata planhigion ac anifeiliaid sydd wedi cael eu bridio'n fanwl sy'n dod o Loegr heb awdurdod Gweinidogion Cymru.
- c. Nid yw'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i organebau sydd wedi cael eu bridio'n fanwl gael eu labelu i ddangos hynny. Mae hyn yn golygu na fydd defnyddwyr yng Nghymru sy'n prynu organebau wedi'u bridio'n fanwl a bwyd sy'n deillio ohonynt o reidrwydd yn gwybod beth maent yn ei brynu. Mae Llywodraeth Cymru am ddiogelu hawliau defnyddwyr Cymru i ddewis a ydynt yn prynu cynhyrchion bwyd sy'n cynnwys rhai cynhwysion wedi'u bridio'n fanwl. Hefyd, heb ofyniad i labelu neu olrhain, mae gallu Gweinidogion Cymru i fonitro, rheoli neu reoleiddio marchnata organebau wedi'u bridio'n fanwl neu gynhyrchion sy'n deillio ohonynt yng Nghymru yn cael ei rwystro'n sylweddol. Mae hefyd yn ei gwneud yn heriol yn ymarferol i orfodi Rheoliadau Cymru pan fyddant yn berthnasol.
- d. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn pryderu am yr effaith y bydd y Bil yn ei chael ar fasnachu â marchnadoedd allweddol, fel yr UE, lle mae organebau wedi'u bridio'n fanwl yn cael eu rheoleiddio yn yr un modd ag organebau a addaswyd yn enetig. Er bod yr UE yn ystyried dadroleiddio organebau y mae eu genynnau wedi cael eu golygu, mae'n debyg y bydd hyn yn cael ei gyfyngu i blanhigion, a bydd gofyniad ar gyfer labelu neu olrhain. O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd rhwystrau i fasnachu ar gyfer busnesau yng Nghymru sydd am allforio

- cynhyrchion sy'n dod o organebau wedi'u bridio'n fanwl, a gallai'r rhwystrau hyn gael eu gwaethygu gan ddiffyg labelu neu olrhain.
- e. Bydd rhannau allweddol o'r Bil, gan gynnwys Rhan 3 mewn perthynas ag anifeiliaid wedi'u bridio'n fanwl, yn cael eu hamlinellu mewn is-ddeddfwriaeth. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd gwybod sut bydd y pwerau'n cael eu harfer a'r effeithiau posibl y bydd y darpariaethau cysylltiedig yn eu cael ar Gymru a'n setliad datganoli. Er enghraifft, nid ydym yn gwybod hyn yma pa safonau lles a roddir ar waith ar gyfer anifeiliaid wedi'u bridio'n fanwl y caniateir eu marchnata yng Nghymru. Mae lles anifeiliaid yn faes cymhwysedd datganoledig. Gan y bydd y fframwaith rheoleiddio hefyd yn cael ei gynnwys mewn is-ddeddfwriaeth, rydym hefyd yn pryderu ynghylch y diffyg craffu posibl yn eu cylch.

21. Felly, mae'r rhesymau uchod dros argymhell bod cydsyniad yn cael ei atal yn berthnasol i'r y Bil yn ei gyfanrwydd, gan y bydd effeithiau'r Bil yn effeithio ar iechyd planhigion, iechyd a lles anifeiliaid, a bwyd a phorthiant.
22. Barn Llywodraeth Cymru yw bod y Bil yn fil perthnasol, gan ei fod yn gwneud darpariaeth berthnasol sy'n ymwneud â Chymru, o ganlyniad i Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020. Mae effaith y gofynion yn yr UKIMA yn golygu y bydd y darpariaethau yn y Bil, i bob pwrpas, yn caniatáu gwerthu a marchnata organebau wedi'u bridio'n fanwl yng Nghymru – rhywbeth nad yw deddfwriaeth Cymru yn ei ganiatáu ar hyn o bryd. Felly, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau yn y Bil, o ganlyniad i'r UKIMA, wedi cael eu gwneud ar ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Goblygiadau ariannol

23. Mae dadansoddiadau cynnar yn dangos y bydd goblygiadau ariannol ar gyfer Cymru o ganlyniad o'r Bil. Mae hyn oherwydd y bydd o leiaf dwy gyfundrefn wahanol ar waith yng Nghymru mewn perthynas â chynhyrchion sy'n deillio o organebau wedi'u bridio'n fanwl. Bydd yn ofynnol i fusnesau weithredu'n gyfreithlon yn yr amgylcheddau hyn, a bydd costau'n gysylltiedig â gorfodi dwy gyfundrefn wahanol.

Casgliad

24. Fel y amlinellir uchod, mae effaith gyffredinol y Bil yn peri pryderon mewn perthynas â'r cyfansoddiad i Lywodraeth Cymru, o ystyried yr effaith ar sefyllfa organebau wedi'u bridio'n fanwl yng Nghymru, a'r broses o orfodi'r maes hwn, o ganlyniad i ddarpariaethau'r UKIMA. Yn ei ffurf bresennol, nid yw Gweinidogion Cymru o'r farn bod y Bil yn gwneud darpariaeth briodol ac ni fyddem yn argymhell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad.

Lesley Griffiths AS

**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
8 Rhagfyr 2022**

Atodiad 1 Darpariaethau'r Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl) y mae angen cydsyniad ar eu cyfer.

O dan Reol Sefydlog 29.1(i) ar gyfer cymalau sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd:

Cymal 1 – Organeb wedi'i bridio'n fanwl

Cymal 3 – Cyfyngiadau ar ollwng organeb wedi'i bridio'n fanwl yn Lloegr

Cymal 4 – Gollwng organeb wedi'i bridio'n fanwl: gofynion hysbysu

Cymal 5 – Cyfyngiadau ar farchnata organeb wedi'i bridio'n fanwl yn Lloegr

Cymal 11 – Gwneud cais am awdurdodiad i farchnata anifail wedi'i bridio'n fanwl

Cymal 20 – Monitro ac archwilio rhwymedigaethau Rhan 2

Cymal 26 – Rheoleiddio bwyd a phorthiant a gynhyrchir o organebau wedi'u bridio'n fanwl

Cymal 28 – Monitro ac archwilio rhwymedigaethau Rhan 3

Cymal 31 – Ystyr 'toriad perthnasol' ac ati

Cymal 32 – Gorfodi

Cymal 38 – Costau

Cymal 41 – Diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990

Mae'r darpariaethau hyn yn ymwneud ag adran 107(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n darparu na fydd Senedd y DU fel arfer yn deddfu mewn perthynas â materion datganoledig heb gydsyniad Senedd Cymru. Mae'r darpariaethau'n cael effaith ar y materion datganoledig canlynol: addasu genetig a gollwng organebau a addaswyd yn enetig, iechyd plant, iechyd a lles anifeiliaid a bwyd a phorthiant; ac ar allu'r Senedd i ddeddfu yn y meysydd hyn. Felly, mae angen cydsyniad y Senedd.

Mae **Cymal 1** yn darparu diffiniad o organeb wedi'i bridio'n fanwl. Mae'n amlinellu o dan ba amodau yr ystyrir bod organeb wedi cael ei bridio'n fanwl. Nid yw Cymru wedi diffinio organeb wedi'i bridio'n fanwl hyd yma. Yng Nghymru mae'r diffiniad o organeb a addaswyd yn enetig yn cynnwys organebau wedi'u bridio'n fanwl. Effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU fydd na fydd y diffiniad o organeb a addaswyd yn enetig yn berthnasol i organebau wedi'u bridio'n fanwl. Mae organeddau a addaswyd yn enetig yn faes sydd wedi cael ei ddatganoli, ac o ganlyniad dim ond Gweinidogion Cymru a ddylai allu diwygio'r diffiniad mewn perthynas â Chymru.

Mae **Cymal 3** yn amlinellu'r gofynion ar gyfer gollwng organeb wedi'i bridio'n fanwl i'r amgylchedd yn Lloegr. Mae'n dweud naill ai fod rhaid i 'hysbysiad gollwng' fod ar waith ar gyfer yr organeb, neu fod rhaid i'r organeb gael ei

hystyried yn organeb wedi'i bridio'n fanwl y gellir ei marchnata. O dan ddeddfwriaeth ddomestig Cymru (Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) 2002), ystyrid bod organebau wedi'u bridio'n fanwl wedi cael eu haddasu'n enetig, a byddai angen awdurdodiad Llywodraeth Cymru er mwyn eu gollwng i'r amgylchedd. Fodd bynnag, o dan y Bil Bridio Manwl, ac oherwydd effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU, gall fod amgylchiadau pan fydd yr organebau hyn yn cael eu gollwng i'r amgylchedd yng Nghymru, oherwydd eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol yn Lloegr, os bydd y gofynion a nodir yng Nghymal 3 yn cael eu bodloni.

Mae **Cymal 4** yn amlinellu'r broses hysbysu ar gyfer gollwng organeb wedi'i bridio'n fanwl yn Lloegr. Gall gollwng organeb wedi'i bridio'n fanwl olygu nifer o bethau ac, o ganlyniad i Ddeddf Marchnad Fewnol y DU, mae'n bosibl drwy gydymffurfio â'r broses hysbysu ar gyfer gollwng organeb wedi'i bridio'n fanwl yn Lloegr, y gellir gollwng organebau wedi'u bridio'n fanwl yng Nghymru, o ganlyniad i effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU. Byddai hyn yn groes i'r gyfraith yng Nghymru sy'n gofyn am broses fwy manwl o lawer ar gyfer gollwng organebau a addaswyd yn enetig (y mae organebau wedi'u bridio'n fanwl yn y categori hwn) sy'n cael eu rheoli gan Weinidogion Cymru ar hyn o bryd.

Mae **Cymal 5** yn nodi pryd y gellir marchnata organeb wedi'i bridio'n fanwl. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gadarnhad bod yr organeb wedi cael ei bridio'n fanwl fod ar waith, ac yn achos anifeiliaid, mae angen i awdurdodiad i farchnata anifail wedi'i fridio'n fanwl fod ar waith. Mae marchnata'n digwydd pan fydd cynnyrch yn cael ei wneud ar gael i rywun arall (boed hynny i'w ystyried neu beidio), a bod y cynnyrch hwnnw'n cael ei farchnata yn Lloegr. O dan reoliadau presennol Cymru ni chaniateir marchnata organebau wedi'u bridio'n fanwl yng Nghymru (heb ddilyn y broses berthnasol ar gyfer awdurdodi organebau a addaswyd yn enetig). Fodd bynnag, mae effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU yn golygu, i bob pwrpas, y bydd darpariaethau Cymru mewn perthynas ag organebau a addaswyd yn enetig, sef y categori y mae organebau wedi'u bridio'n fanwl ynddo ar hyn o bryd, yn amherthnasol, ac mae'n debyg na fydd modd eu gorfodi. Byddai rhaid i Gymru ganiatáu marchnata a chyflenwi'r organebau wedi'u bridio'r fanwl hynny yng Nghymru.

Mae **Cymal 11** yn amlinellu'r broses ymgeisio am awdurdodiad i farchnata anifail wedi'i fridio'n fanwl. Nid oes gofyniad am labeli na mesurau olrhain os yw'r awdurdodiad i farchnata organeb wedi'i bridio'n fanwl yn cael ei roi wedyn. Mae angen labeli ar gyfer organebau a addaswyd yn enetig yng Nghymru a Lloegr. Gan fod organebau wedi'u bridio'n fanwl yn cael eu dileu o'r diffiniad o organebau a addaswyd yn enetig, ac oherwydd effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU, os yw cynnyrch wedi mynd drwy'r broses gwneud cais am awdurdodiad i farchnata anifail sydd wedi cael ei fridio'n fanwl, ac yn derbyn yr awdurdodiad hwnnw, wedi gellir ei farchnata yng Nghymru, heb unrhyw beth i ddweud ei fod wedi cael ei fridio'n fanwl.

Mae **Cymal 20** yn darparu y gellir gwneud rheoliadau i ganiatáu monitro ac archwilio'r rhwymedigaethau a amlinellir yn Rhan 2 o'r Bil. Nid yw'n glir sut y

bydd y rhwymedigaethau hyn yn cael eu monitro pan fyddant yn ymwneud â gollwng a marchnata organebau wedi'i bridio'n fanwl yng Nghymru.

Mae **Cymal 26** yn darparu y caiff rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer rheoleiddio marchnata bwyd a phorthiant wedi'i gynhyrchu o organebau wedi'u bridio'n fanwl. Mae'r cymal yn darparu y gall fod angen awdurdodiad i farchnata cynhyrchion bwyd a phorthiant, ac y gellir hefyd roi gofynion i fesurau olrhain gael eu rhoi ar waith. Dim ond yn Lloegr y bydd y rheoliadau hyn yn berthnasol. O dan reoliadau presennol Cymru ni chaniateir marchnata organebau wedi'u bridio'n fanwl yng Nghymru heb ddilyn y broses berthnasol ar gyfer awdurdodi organebau a addaswyd yn enetig. Fodd bynnag, mae effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU yn golygu, ar gyfer bwyd a gynhyrchir o organebau wedi'u bridio'n fanwl sy'n cael eu cynhyrchu yn Lloegr neu'n cael eu mewnfario yno, ac yn cael eu marchnata yng Nghymru, i bob pwrpas na fydd modd gorfodi rheoliadau a wneir o dan ddarpariaethau Cymru mewn perthynas â bwyd a phorthiant a gynhyrchir o organebau a addaswyd yn enetig, sef y categori y mae bwyd a phorthiant a gynhyrchir o organebau wedi'u bridio'n fanwl ynddo,

Mae **Cymal 28** yn darparu y gellir gwneud rheoliadau i ganiatáu gorfodi rhwymedigaethau a amlinellir yn Rhan 3 o'r Bil. Nid yw'n glir sut y bydd y gorfodi hwn yn cael ei gynnal mewn perthynas â chynhyrchion bwyd a phorthiant sy'n dod o organebau wedi'u bridio'n fanwl sy'n cael eu marchnata yng Nghymru.

Mae **Cymalau 31, 32, a 38** yn ymwneud ag achosion o dorri'r Ddeddf, gorfodi'r Ddeddf a'r costau sy'n gysylltiedig â gorfodi. Nid yw'n glir sut bydd y Ddeddf yn cael ei gorfodi yng Nghymru, na sut yr ymdrinnir â'r costau. Cydnabyddir mai pwerau fframwaith yw'r rhain, a bydd y pwerau i wneud rheoliadau'n darparu manylion y gyfundrefn orfodi.

Mae **Cymal 14** yn diwygio Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i hepgor organebau wedi'u bridio'n fanwl o gyfeiriadau at organebau a addaswyd yn enetig mewn perthynas â Lloegr. Effaith hyn, yn Lloegr, yw na fydd organebau wedi'u bridio'n fanwl yn cael eu trin fel organebau a addaswyd yn enetig yn Lloegr. Er nad yw'r diwygiad hwn i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn berthnasol i Gymru, bydd yn cael effaith ar Gymru gan, oherwydd Deddf Marchnad Fewnol y DU, byddai modd marchnata'r organebau wedi'u bridio'n fanwl hyn, sydd bellach y tu allan i'r gyfundrefn organebau a addaswyd yn enetig, yng Nghymru.